# GRANTIAU I BRIF GRWPIAU YMGYRCHU DYNODEDIG MEWN REFFERENDA

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi telerau allweddol arfaethedig y grantiau sydd i'w gwneud ar gael gan y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) i'r prif grwpiau ymgyrchu dynodedig (os penodir nhw) yn refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (LlCC) sydd i'w gynnal ar 3 Mawrth 2011, a'r refferendwm arfaethedig ar System Bleidleisio'r Senedd (PVS) sydd i'w gynnal ar 5 Mai 2011.

2. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r telerau ac amodau ffurfiol ar gyfer y grantiau ar ddechrau'r cyfnod cais am ddynodiad ym mhob refferendwm. Bydd y telerau ac amodau yn cymryd blaenoriaeth dros y ddogfen hon a gall amrywio'r telerau a ddisgrifir ynddi; os ydynt, byddwn yn hysbysu darpar ymgyrchwyr o'r newidiadau yn syth.

## Gwerth y grant

3. Fel y cyhoeddwyd eisoes, bydd y grant i bob prif grŵp ymgyrchu dynodedig yn refferendwm LlCC yn £70,000. Bydd y grant i bob prif grŵp ymgyrchu yn Refferendwm PVS yn cael ei drefnu'n derfynol ar sail hyd y cyfnod refferendwm, a fydd yn cychwyn pan fo System Bleidleisio'r Senedd a'r Mesur Etholaethau'n derbyn y Cydsyniad Brenhinol. Cyfrifir y grant fel y cyfanswm o swm sylfaenol o £70,000, ynghyd â £28,000 am bob wythnos o'r cyfnod refferendwm, hyd at fwyafswm statudol o £600,000.

## Gwariant cymwys

4. Fel y cyhoeddwyd eisoes, bwriedir y grantiau i helpu'r prif grwpiau ymgyrchu dynodedig gwrdd â chostau eu hisadeiledd ymgyrch, ac nid i dalu am ddeunyddiau ymgyrchu. Gall costau gael eu hawlio o'r grant os ydynt:
   - wedi eu cyflawni i bwrpas hyrwyddo'r deilliant yn y refferendwm y dynodwyd yr ymgyrchydd ar ei gyfer, ac
   - eu bod yn gysylltiedig â chostau sefydlu, neu weithredu a staffio, swyddfeydd yr ymgyrch.

5. Mae'r eitemau y gellir hawlio eu costau o'r grant yn cynnwys:

   - rhentu eiddo
   - rhentu neu brynu offer swyddfa
   - prynu meddalwedd TG swyddfa cyffredinol, ond nid y gost o brynu meddalwedd ymgyrchu arbennig
   - rhentu neu brynu caledwedd TG
   - cysylltiadau rhyngrwyd
   - gwasanaeth a galwadau ffôn, ond nid y gost o alwadau digymell i bleidleiswyr

- cyfleustodau, os nad ydynt wedi eu cynnwys yng nghost rhent yr eiddo
- prynu cyflenwadau swyddfa cyffredinol, ond nid y gost o brynu cyflenwadau a ddefnyddir i gyfathrebu â phleidleiswyr yng nghyswllt materion a restrir o dan Atodlen 13 Rhan 1 PPERA
- y gwariant a geir i gyflogi staff, hyd at uchafswm cyffredinol o £17,000 yn achos refferendwm LICC, ac uchafswm cyffredinol yn achos Refferendwm PVS wedi ei gyfrifo ar sail £3,000 am bob wythnos o'r cyfnod refferendwm.

6. Gellir hawlio'r costau sy'n ymwneud â'r eitemau a restrir ym mharagraff 5 uchod o'r grant fel a ganlyn:
   - ble bo eitem yn cael ei phrynu, bydd y gost prynu yn medru cael ei hawlio o'r grant ar yr amod:
     - o y prynwyd yr eitem i bwrpas ymgyrch y refferendwm, ac
     - o y bydd eitemau sy'n costio mwy na £200 yn cael eu cynnig am ddim i'r Comisiwn ar ôl y bleidlais
   - ble bo eitem wedi ei rhentu, y swm y gellir ei hawlio o'r grant fydd y gyfran o gyfanswm y costau rhesymol o rentu, (yn cynnwys costau cychwyn ac/ neu derfynu ble bo'n briodol) y gellir eu priodoli i'r cyfnod refferendwm
   - y costau y gellir eu hawlio am staff a chyfleustodau fydd y rhai sy'n gysylltiedig â'r cyfnod refferendwm.

7. Gellir hawlio costau cymwys ar y sail hon p'un a gawsant eu cyflawni cyn neu ar ôl cychwyn y cyfnod refferendwm.

**Talu'r grant**

8. Byddwn yn talu 30% o gyfanswm gwerth y grant i bob grŵp ymgyrchu dynodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dynodiad. I refferendwm LICC, bydd hyn yn £21,000.

9. Pan fo grŵp ymgyrchu yn dymuno hawlio symiau pellach o'r grant, bydd angen iddo gyflwyno hawliad ar ffurf y bydd y Comisiwn yn manylu arni, gyda thystiolaeth ei fod wedi ymrwymo i wariant cymwys sy'n cyfateb i'r swm pellach a hawlir. Bydd hefyd angen egluro sut mae'n bwriadu gwario'r 30% o'r grant a fydd eisoes wedi ei dalu iddo.

10. Yn achos y Refferendwm PVS, bydd hawliad cyntaf y grŵp ymgyrchu am swm pellach o grant hefyd angen cynnwys tystiolaeth fod y grŵp ymgyrchu wedi ymrwymo i wariant cymwys sy'n cyfateb i o leiaf y rhan hwnnw o'r taliad 30% sy'n fwy na £50,000. Mae hyn er mwyn i ni gael tystiolaeth fod y gyfran o'r taliad cychwynnol eisoes wedi ei wario cyn talu hawliadau pellach. Pan fo lefel y grant i'r Refferendwm PVS yn cael ei gadarnhau, byddwn yn hysbysu darpar prif grwpiau ymgyrchu o'r cyfanswm o wariant sydd angen tystiolaeth amdano yn yr hawliad cyntaf.

11. Yn achos refferendwm LICC, bydd y taliad 30% cychwynnol yn llai na £50,000 ac felly'r cyfan sydd angen i'r hawliad cyntaf, a hawliadau dilynol, ei wneud yw dangos ymrwymiad i wario'r swm a hawlir.

## Hawliad terfynol a dychwelyd arian heb ei wario

12. Ar ôl y bleidlais, bydd angen i bob grŵp ymgyrchu dynodedig:
    - ddychwelyd i'r Comisiwn unrhyw grant a ddarparwyd iddo ac sydd heb ei wario ar wariant cymwys
    - gyflwyno hawliad terfynol gyda thystiolaeth ei fod wedi ymrwymo i wariant cymwys yng nghyswllt:
        - unrhyw gostau pellach mae'n dymuno eu hawlio o'r grant, ac
        - unrhyw grant mae wedi ei dderbyn nad yw'r grŵp eto wedi darparu tystiolaeth o wariant cymwys ar ei gyfer
    - rhoi rhestr i'r Comisiwn o'r holl eitemau sy'n costio mwy na £200 y mae cost eu prynu wedi ei hawlio o'r grant. Yna bydd y Comisiwn yn hysbysu'r grŵp ymgyrchu o'r eitemau y mae rhaid eu trosglwyddo i'r Comisiwn, a bydd rhaid i'r grŵp ymgyrchu drefnu trosglwyddiad cyfreithiol a ffisegol o'r eitemau hynny.

## Archwilio

13. Bydd y Comisiwn yn archwilio'r defnydd o'r grant ar ôl y bleidlais, gan ddefnyddio ei bwerau goruchwylio yng nghyswllt cyfranogwyr a ganiateir. Disgrifir pwerau goruchwylio'r Comisiwn yn adran 5 o Bolisi Gorfodaeth y Comisiwn, a fydd ar gael ar wefan y Comisiwn o 1 Rhagfyr 2010 ar http://www.electoralcommission.org.uk/

## Adennill

14. Ble bo grŵp ymgyrchu dynodedig:
    - yn defnyddio arian grant i dalu am bethau nad ydynt yn wariant cymwys;
    - yn cadw arian grant tu draw i ddyddiad penodol ar ôl y bleidlais, neu
    - yn cadw eitem sy'n costio mwy na £200 y cafodd cost ei brynu wedi ei dalu o'r grant, ac sydd angen ei drosglwyddo i'r Comisiwn

    bydd gan y Comisiwn yr hawl i adennill yr arian perthnasol, yn cynnwys llog a chostau cyfreithiol.

Y Comisiwn Etholiadol
Rhagfyr 2010